Rhif System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru:

Ffurflen Gais Man Parcio ar gyfer Pobl Anabl

Cyflwyniad i'r Cynllun

Mae mannau parcio unigol ar gyfer pobl anabl yn fannau parcio ar ymyl y ffordd ac maen nhw wedi'u nodi â llinellau gwyn mewn siâp 'blwch' ynghyd ag arwydd.

Nod y man parcio yw helpu pobl â nam symudedd sy'n methu â cherdded yn bell ac sydd angen cymorth i barcio'n agos at eu cartrefi.

Cymhwysedd i gael Man Parcio ar gyfer Pobl Anabl

Nod y Cynllun yw helpu gyrwyr anabl, sydd â nam symudedd difrifol, ac sy'n meddu ar Fathodyn Glas ac sy'n ei chael hi'n anodd parcio y tu allan i'w cartrefi oherwydd bod cerbydau eraill wedi'u parcio yno (a does dim cyfleusterau parcio addas oddi ar y ffordd ar hyn o bryd neu does dim modd eu creu nhw).

I fod yn gymwys, RHAID i'r ymgeisydd fodloni'r meini prawf canlynol:

- RHAID i'r gyrrwr a'r ymgeisydd (os ydyn nhw'n bobl wahanol) fyw yn yr un cyfeiriad, a rhaid bod y cerbyd yn cael ei gadw yn y cyfeiriad yma'n barhaol
- RHAID i'r ymgeisydd feddu ar Fathodyn Glas cyfredol a dilys (dydy deiliaid Bathodyn Glas dros dro ddim yn gymwys i wneud cais)
- Bydd man parcio dim ond yn cael ei osod yn union y tu allan i'r eiddo dan sylw. Fydd cais ddim yn cael ei gymeradwyo os oes gwaharddiadau traffig, palmentydd neu rwystrau eraill yn uniongyrchol y tu allan i'r cartref (cyffordd, er enghraifft)
- Fydd eich cais ddim yn cael ei gymeradwyo os oes gyda chi fan parcio hygyrch oddi ar y ffordd ar eich eiddo (e.e. arwyneb solet, rhodfa, garej ac ati)

Does dim modd gwneud cais ar ran ymwelwyr, dim ots beth yw eu sefyllfa. Mewn rhai achosion penodol, gall teithwyr anabl fod yn gymwys hefyd.

Os oes palmant isel y tu allan i gartref yr ymgeisydd, mae dal modd iddo wneud cais yn ôl y Cynllun. Ond, os ydy man parcio yn cael ei ganiatáu, bydd raid cael gwared â'r palmant isel oherwydd nad yw'n bosib cael y ddau ar yr un eiddo.

Y Broses Asesu

Ar ôl derbyn ffurflen gais gymwys, bydd Aseswr o'r tim Therapi Galwedigaethol yn cysylltu â'r ymgeisydd i drefnu apwyntiad i alw heibio a chynnal asesiad cynhwysfawr o'i anghenion.

Yn dilyn asesiad, bydd panel o swyddogion perthnasol yn penderfynu p'un ai i gymeradwyo'r man parcio ai peidio. Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod am y penderfyniad yn ysgrifenedig. Mae'r broses asesu yn debygol o gymryd rhai misoedd i'w chwblhau.

Cyflwyno Cais am Fan Parcio

Nodwch bydd gofyn am ffi weinyddu o £10 am bob cais. Os byddwch chi'n methu ag anfon y taliad, fydd eich cais ddim yn cael ei ystyried. Does dim modd ad-dalu'r ffi yma, p'un a yw man parcio'n cael ei gymeradwyo ai peidio.

Rhaid cynnwys siec neu archeb bost yn daladwy i '*Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf* 'gyda'r ffurflen gais yma. Mae modd talu ag arian parod a cherdyn hefyd yn eich Canolfan iBobUn agosaf.

Beth os fydd fy nghais ddim yn llwyddiannus?

Os fydd eich cais ddim yn llwyddiannus, does dim hawl i'w apelio.

Mae hyn oherwydd yn dilyn eich asesiad gyda'r tim Therapi Galwedigaethol, byddwn ni'n anfon eich asesiad atoch chi er mwyn i chi ei ddarllen a bydd cyfle gyda chi i ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol rydych chi o'r farn a oedd yn berthnasol adeg yr asesiad.

Byddwn ni dim ond yn ystyried gwybodaeth sy'n berthnasol adeg yr asesiad. Felly, mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr asesiad yn ofalus a nodi popeth y mae angen i ni wybod am eich amgylchiadau ar yr adeg hynny. Efallai bod eich asesiad yn dangos eich bod chi'n gymwys i gael Man Parcio, ond ei bod hi'n dechnegol amhosibl i osod un lle rydych chi'n byw.

Byddwn ni'n nodi hyn yn ein hymateb er mwyn i chi wybod fydd dim modd i chi gael Man Parcio ar eich eiddo, oni bai bod yr amgylchedd yn newid.

Cwblhewch y cais canlynol mor fanwl â phosibl.

Adran 1: Gwybodaeth am yr Ymgeisydd

Os ydych chi'n cwblhau'r ffurflen ar ran ymgeisydd dan 16 oed neu ar ran rhywun sy'n methu â llenwi a chwblhau'r ffurflen ei hun, nodwch fanylion y person yn yr adrannau priodol a llofnodi'r ffurflen ar ran yr unigolyn.

Teitl (Nodwch) Mr Mrs Miss Ms Arall:

Enw cyntaf:

Enw canol:

Cyfenw:

Dyddiad geni: (DD/MM/BB)

Cyfeiriad:

Cod post:

Rhif ffôn:

Ffôn symudol:

Cyfeiriad e-bost:

Adran 2: Manylion Bathodyn Glas

I fod yn gymwys i geisio am Fan Parcio, **RHAID** bod yr ymgeisydd yn meddu ar Fathodyn Glas i'r Anabl cyfredol.

Rhif Cyfres Bathodyn Glas yr Ymgeisydd:

Dyddiad dechrau'r Bathodyn Glas:

Dyddiad dod i ben y Bathodyn Glas:

Adran 3: Manylion y Gyrrwr:

I fod yn gymwys i geisio am Fan Parcio, **RHAID** i'r gyrrwr a'r ymgeisydd (os ydyn nhw'n bobl wahanol) fyw yn yr un cyfeiriad, a rhaid bod y cerbyd yn cael ei gadw yn y cyfeiriad yma'n barhaol.

Atebwch y cwestiynau canlynol:

Ai ymgeisydd y man parcio yw gyrrwr y cerbyd hefyd?

☐ Ie ☐ Na

Os na, ydy gyrrwr y cerbyd yn byw yn yr un eiddo?

☐ Ydy ☐ Nac ydy

Ydy'r car yn cael ei gadw'n barhaol yng nghyfeiriad y gyrrwyr ac ymgeisydd y man parcio?

☐ Ydy ☐ Nac ydy

Adran 4: Parcio hygyrch oddi ar y ffordd a Gwaharddiadau Traffig

Dim ond yn union y tu allan i'r eiddo dan sylw y mae modd gosod man parcio, ac ni fydd yn cael ei gymeradwyo os oes cyfleusterau parcio hygyrch eraill oddi ar y ffordd ar gael yn yr eiddo neu gerllaw.

Oes unrhyw un o'r canlynol gyda chi yn eich eiddo? (*Ticiwch yr ateb priodol*)

	Oes	Nac oes
Arwyneb solet		
Rhodfa		
Garej		

Bydd man parcio dim ond yn cael ei osod yn union y tu allan i'r eiddo dan sylw. Fydd cais ddim yn cael ei gymeradwyo os oes gwaharddiadau traffig, palmentydd neu rwystrau eraill yn uniongyrchol y tu allan i'r cartref (cyffordd, er enghraifft).

Oes unrhyw un o'r canlynol gyda chi yn union y tu allan i'r eiddo, neu ger yr eiddo? (*Ticiwch yr ateb priodol*)

	Nac oes	Oes – yn union y tu allan i'r eiddo	Oes – ger yr eiddo
Llinellau Melyn Sengl			
Llinellau Melyn Dwbl			
Ardal parcio i breswylwyr sydd â thrwydded yn unig			
Ardal aros cyfyngedig			
Safle Bysiau			
Croesfan Sebra/Pelican			
Cyffordd			

Adran 5: Offer Symudedd

Ydy'ch cerbyd wedi'i addasu i'ch anabledd?

☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os ydy, rhowch fanylion

Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r offer symudedd canlynol? *(Ticiwch yr ateb priodol)*

	Nac ydw	Dan do	Tu allan	Ar bob adeg
Cadair olwyn hunan-symudol				
Cadair olwyn sy'n cael ei gwthio gan rywun arall				
Ffrâm Gerdded (Ffrâm Zimmer)				
Ffyn Baglau				
Ffyn Cerdded				
Arall (nodwch)				

Pwy a ddarparodd yr offer? *(Ticiwch yr ateb priodol)*

	Wedi'i ragnodi i mi	Wedi'i brynu'n bersonol
Cadair olwyn hunan-symudol		
Cadair olwyn sy'n cael ei gwthio gan rywun arall		
Ffrâm Gerdded (Ffrâm Zimmer)		
Ffyn Baglau		
Ffyn Cerdded		
Arall (nodwch)		

Oes angen cymorth arnoch chi i fynd i mewn i'r cerbyd a dod allan ohono?

☐ Oes ☐ Nac oes

Oes modd i'r gyrrwr eich helpu i mewn ac allan o'r cerbyd?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os 'Oes', rhowch fanylion:

Adran 6: Amodau Parcio Presennol

Ydych chi'n ei chael yn annodd parcio'n gyfleus ger eich eiddo yn rheolaidd gan fod llawer o gerbydau'n parcio ar y stryd?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os 'Ydw', rhowch fanylion:

Ble ydych chi'n parcio pan fo'r stryd yn brysur?

Amlder anhawster parcio (e.e. gyda'r nos / penwythnosau)

Adran 7: Hygyrchedd

Oes angen mynediad i'ch cerbyd arnoch chi ar gyfer unrhyw un o'r canlynol? *(Ticiwch yr ateb priodol)*

	Nac oes	Oes – nodwch ba mor aml
Gwaith		
Apwyntiadau ysbyty rheolaidd		
Apwyntiadau Meddyg Teulu rheolaidd		
Arall (nodwch)		

Pa fath o fynediad sydd i'ch eiddo? *(Ticiwch yr ateb priodol)*

	Dim	Un o'r isod (faint?)
Lefel		

Ramp		
Grisiau		

Adran 8: Rhagor o wybodaeth

Rhowch unrhyw fanylion a fydd, yn eich barn chi, o gymorth i'ch cais (gan gynnwys cyflyrau meddygol cyfredol)

Adran 9: Telerau ac Amodau Man Parcio

Ticiwch i gadarnhau eich bod chi wedi darllen a deall y datganiadau canlynol	✓
Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd hi'n cymryd hyd at 12 mis i osod y man parcio ar ôl i mi gael fy hysbysu ei fod wedi cael ei gymeradwyo.	
Os yw'n cael ei gymeradwyo, fydd y man parcio ddim yn ymestyn y tu hwnt i led ffin fy eiddo ac mae'n bosibl na fydd digon o le ar gyfer lifft-ôl (os oes un).	
Fydd man parcio ddim yn cael ei gymeradwyo lle mae'r ffordd yn gul, ac o ganlyniad, mae preswylwyr yn parcio ar y palmant fel arfer i ganiatáu i'r traffig lifo.	
Rwy'n deall fydd man parcio ddim yn cael ei gymeradwyo lle mae'r ffordd yn gul, ac o ganlyniad, mae preswylwyr yn parcio ar y palmant fel arfer i ganiatáu i'r traffig lifo.	
Fydd man parcio ddim yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion parcio nyrsys cymuned nac ymwelwyr rheolaidd eraill, ymwelwyr anabl na cherbydau sy'n cael eu defnyddio i gludo cleientiaid i ofal oriau'r dydd neu apwyntiadau ysbyty.	
Os yw man parcio yn cael ei gymeradwyo, bydd yn fan parcio dynodedig ar gyfer deiliaid bathodyn glas a bydd modd ei ddefnyddio gan unrhyw un sy'n arddangos bathodyn glas dilys am hyd at 3 awr ar unrhyw adeg.	

Os yw man parcio yn cael ei gymeradwyo a bod newid mewn amgylchiadau mewn perthynas â hawl, (e.e. mae'r ymgeisydd yn symud tŷ, yn symud i gartref gofal neu gartref nyrsio yn barhaol, yn marw, neu mae ei iechyd yn gwaethygu i'r graddau nad yw'r car yn cael ei ddefnyddio mwyach), rwy'n deall y bydd y man parcio yn cael ei ddileu. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd yw rhoi gwybod am unrhyw newidiadau o'r fath i'r awdurdod Priffyrdd (mae modd cyflwyno apeliadau yn erbyn dileu'r man parcio dan rai amgylchiadau penodol).	
Os yw'ch cais am fan parcio yn llwyddiannus, ac yna rydych chi'n symud tŷ, fyddwch chi ddim yn cael man parcio yn y cyfeiriad newydd yn awtomatig. Bydd angen cyflwyno cais asesiad ar gyfer man parcio newydd. Does dim modd gwarantu y bydd man parcio yn cael ei gymeradwyo o gyflwyno cais newydd.	
Mae mannau parcio sy'n cael eu dyrannu yn osodiadau parhaol tra eu bod nhw'n cael eu defnyddio gan yr ymgeisydd, ond gall hyn gael ei adolygu os yw trydydd parti yn rhoi gwybod i'r awdurdod am bryderon neu broblemau ynglŷn â'i ddefnydd neu ynglŷn â'r hawl. Dan yr amgylchiadau yma, mae'n bosibl y bydd swyddog mannau parcio yn cysylltu â chi ar ôl i'r wybodaeth yma ddod i law. Bydd unrhyw drafodaethau ac ymchwiliadau yn gwbl gyfrinachol i berchennog y man parcio, a fydd y manylion ddim yn cael eu datgelu i'r sawl sy'n codi'r pryder.	
Mae dyrannu mannau parcio yn amodol ar asesu angen a fydd nifer y ceisiadau sydd wedi'u cyflwyno i'r cynllun yn y gorffennol ddim yn effeithio ar y canlyniad.	

Adran 10: Llofnod

Cyn cyflwyno'ch cais, llofnodwch i gadarnhau eich bod yn cytuno â'r holl delerau ac amodau wedi'u rhestru yn adran 9.

Eich llofnod:

Llofnod yr Ymgeisydd / Cynrychiolydd	**Dyddiad y Llofnod**

Anfonwch y ffurflen yma, ynghyd â'ch ffi weinyddu (nad oes modd ei had-dalu) o £10 erbyn 30

Tachwedd 2022

TRWY'R POST YN UNIG

At:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Gofal Cymdeithasol Oedolion - Carfan Ymateb Cyntaf

Tŷ Elái

Dwyrain Dinas Isaf

Trewiliam

Tonypandy

CF40 1NY

Pan fydd eich ffurflen gais yn dod i law, byddwn yn cydnabod hyn drwy gysylltu â chi cyn gynted ag y bo modd.